# Llwybr Cyflogedig: Ymrwymiadau ysgolion bartner

- Talu'r aelod o staff ar bwynt 1 y raddfa gyflog athro heb gymhwyso yn llawn amser am gyfnod y rhaglen
- Blwyddyn 1 – darparu amserlen o tua 50% cyflogaeth a 50% o amser TAR (astudio ar-lein, addysgu dan oruchwyliaeth a gweithgareddau yn yr Ysgol)
- Rhyddhau eich myfyriwr ar gyfer ail brofiad dysgu am 25 diwrnod bloc llawn amser yn nhymor yr haf ym mlwyddyn 1.
- Blwyddyn 2 – darparu amserlen o 70% o addysgu dosbarth prif ffrwd annibynnol gydag arsylwadau ffurfiol misol a mentora wythnosol. Sicrhau profiad o ddau gyfnod oedran yn olynol dros ddwy flynedd.
- Adnabod Mentor dosbarth. Sesiynau mentora wythnosol wedi'u hamserlennu, arsylwi rheolaidd ac asesu ffurfiol. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant.
- Nodi uwch aelod o staff fel Cydlynydd Ysgol i arwain darpariaeth y Brifysgol Agored. Darparu amser ar gyfer hyfforddiant a gweithgaredd sicrhau ansawdd.
- Cefnogi'r defnydd o IRIS Connect ar gyfer arsylwi addysgu o bell ar-lein trwy ffilmio gwersi a gweithio gyda thiwtor ymarfer.

Mae ysgolion **uwchradd** yn gymwys i dderbyn cyfraniad grant cyflog Llywodraeth Cymru. Ysgolion **uwchradd** cyfrwng Cymraeg, yn derbyn grant cyflog 100% ar gyfer pob un o'r 6 phwnc. Ysgolion **uwchradd** cyfrwng Saesneg, yn derbyn grant cyflog o 50% ar gyfer 5 o'r 6 phwnc, neu grant cyflog 100% i gymeradwyo myfyriwr pwnc Cymraeg. Telir Grant Cyflog yn erbyn pwynt 1 ar raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso. **Nid yw ysgolion cynradd yn gymwys i dderbyn y grant cyflog.** Mae ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei ryddhau i astudio, lleoliad ac unrhyw gostau cysylltiedig. Cefnogir cost astudio myfyriwr cyflogedig gan grant hyfforddi llawn a delir yn uniongyrchol i'r brifysgol. Mae Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gymorth mentora.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

**TAR-Cymru@open.ac.uk**